YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 36. RHIF 12 MAI 2015 50c

# Oedfa Ddinesig Gŵyl Ddewi yn Lerpwl

Cafodd y dyrfa hardd fodd i fyw yn Oedfa Ddinesig Gŵyl Ddewi ar fore Sul, Mawrth 1, 2015 yng nghapel Bethel, Auckland Road, Lerpwl yng nghwmni yr Arglwydd Faer, y Cynghorydd Erica Kemp.



*Lord Lieutenant, a'i phriod a'r Gweinidog yn y canol*



*Yr Arglwydd Faer yn diolch am y bore (gw. ei llythyr)*



*Cantorion Bethel*



*Yr Arglwydd Faer yn derbyn rhodd.*

**Lluniau: Dr. John G. Williams**



*Y Chwiorydd yn barod ar gyfer y lluniaeth*

## YN Y RHIFYN HWN:

DATHLU GWYL DDEWI YN LERPWL A MANCEINION
NEWYDDION O EGLWYSI BETHANIA, BETHEL, SEION.
CYMRY LERPWL, BIRKENHEAD A MANCEINION.
AIL FYW GWEFR COFIO MIMOSA YN 1965
COFIO MARY ALICE WILLIAMS A ELIZABETH MARY JENKINS



Y Cynghorydd Eryl Owen a Mr. Owen (Darllenodd y Cynghorydd Salm 23 yn Gymraeg



Trefnodd Lerpwl i gael un person ifanc am fis i fod yn Faer yr Ifanc. Hwn oedd diwrnod cyntaf Yam Al Aloosi yn y swydd



Y lluniaeth yn llenwi'r bwrdd



Tair cenhedlaeth o deulu yr Hartley



# Yr Alban sydd Bia Hi ar Mai 7fed – gan D. Ben Rees

Pwnc difyr ond dadleuol dros ben yw yr ysgrif hon; yn arbennig y mis nesaf hyn pan ddaw y gwleidyddion oamgylch i ofyn am ein pleidlais. Ar un adeg, yr oedd y dewis ar y mwyaf rhwng tair plaid, pedair yng Nghymru, y tro hwn mae'n amlwg fod chwech o bleidiau yn Lloegr yn gofyn am ein cefnogaeth. Yn ôl pob argoel mae'r sefyllfa yn yr Alban yn mynd i ddylanwadu ar bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae gwyrth wedi digwydd yno. Mis Medi diwethaf aeth 85% o'r etholwyr i bleidleisio yn y refferendwm, ac yn eu plith roedd miloedd ar filoedd o bobl ifainc 16 a 17 mlwydd oed, yn llawn awyddfryd i fynegi eu barn a phleidleisio Ie. Cafodd yr Unoliaethwyr bleidlais dda, 55% o blaid cadw y Deyrnas Unedig gyda'i gilydd, a 45% am fentro ar lwybr annibyniaeth. Roedd pawb ohonom oedd am gadw'r *status quo* uwchben ein digon am ychydig ddyddiau hyd nes inni sylweddoli nad oedd yr Albanwyr yn gyffyrddus o gwbl i gadw y sefyllfa fel ag yr oedd hi.

Ymddiswyddodd Alex Salmond yr arweinydd a daeth ei ddirprwy Nicola Sturgeon i arwain yr SNP. Ond dechrau oedd hyn; o fewn mis yr oedd gan y Blaid Annibynnol mwy o aelodau nag oedd gan UKIP a'r Democratiaid Rhyddfrydol ac yn agos iawn i nifer sydd ar lyfrau'r Ceidwadwyr ym Mhrydain. Yna dyma Salmond yn dweud ei fod ef am fynd yn ôl i San Steffan er mwyn chwalu'r drefn a gwrthod i'r Ceidwadwyr lywodraethu mewn Coalisiwn. Dyna'i fwriad ac y mae ganddo obaith da i ennill sedd Gordon lle mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol fwyafrif o saith mil a mwy. Ond yn pôl pinwyr Arglwydd Ashcroft a'r *Daily Record* y mae gan yr SNP ddigon o ddilynwyr i gipio 39 o seddau llafur allan o'r 41 presennol, ennill 9 allan o 10 o'r seddau y Rhyddfrydwyr a chadw y chwech sedd sydd ganddynt ar hyn o bryd, cyfanswm o 55 o seddau yr Alban allan o'r 59 sedd. Bydd Llafur a 3 sedd ar ôl yn lle 41 a'r Rhyddfrydwyr 1 sedd yn lle 10 a'r Ceidwadwyr sedd ganddynt. Dyna fydd daeargryn gwleidyddol go iawn! Fedra i ddim cysgu yn fy ngwely ar 7 Mai – fedrwch chwi?

# Cyngerdd Gŵyl Dewi 2015 ym Manceinion

Wedi gorfod symud ein cyngerdd blynyddol allan o'r Coleg Cerdd yn 2014 oherwydd gwaith adeiladol ar y neuadd, mawr oedd yr edrych ymlaen at ddychwelyd yno eleni a'r neuadd ar ei newydd wedd. A da oedd cael rhai o sêr gorau Cymru i'n diddori. Pwy well na Chôr Godre'r Aran o dan arweiniad medrus Eirian Owen i roi sylfaen gadarn i'r noson, Meinir Wyn Roberts, y soprano o Gaernarfon, i ganu yn swynol, gyda Michael Davies wrth y piano, ac Annette Bryn Parri a Dylan Cernyw, gyda'u gilydd fel Piantel, yn performio mewn modd anhygoel. 'Roeddynt i gyd wedi ymddangos yn ein cyngherddau o blaen ar adegau, ond nid hefo'u gilydd, a phleser o'r mwyaf oedd cael eu croesawu yn ôl atom. Cawsom noson i'w chofio, a phawb wedi mwynhau. Edrychwn ymlaen yn awr at Chwefror 2016, p'ryd y byddwn yn dathlu 40 mlynedd o gyngherddau yn y Coleg Cerdd. Ar nos Sadwrn, 28ain Chwefror 1976, Cantorion Gwalia o dan arweiniad Rhys Jones oedd yma, Marian Roberts o Frynsiencyn yn unawdydd, a phris y tocyn? – 80 ceiniog!



Côr Godre'r Aran



Annette Bryn Parri a Dylan Cernyw



Meinir Wyn Roberts

# *Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Cafwyd cinio Gŵyl Ddewi ar y cyd â Chymdeithas Lenyddol Bethel yng Nghlwb Golff Woolton. Mwynhaodd pawb y bwyd. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan y gŵr gwadd Twm Morys yn sôn am hên benillion. Diolch i'r rhai a wnaeth y paratoadau a braf oedd gweld y Ddraig Goch yn chwifio o ben adeilad y Clwb y noson honno.

Y nos Fawrth ganlynol cafwyd noson gerddorol yng nghwmni Gwilym Bowen Rees yn sôn am 'Gerddoriaeth Werin Fywiog'. Mae Gwilym yn byw ym Methel, ger Caernarfon, ac mae ganddo ddidordeb mawr mewn canu gwerin. Mae'n aelod o ddau grŵp sef 'Bandana', sy'n un o fandiau mwyaf poblogaidd Cymru, a ' Plu', sef grŵp a sefydlodd gyda'i ddwy chwaer Marged ac Ellen, ac maent yn cynnal cyngherddau. Mae'n canu a chyfansoddi ac ar hyn o bryd yn dilyn cwrs prentisiaeth yng Nghriccieth yn dysgu sut i wneud clocsiau. Cawsom noson gartrefol a hwyliog gan Gwilym a dangosodd ei ddawn fel canwr a gitarydd. Cyflwynodd rai o'i hoff ganeuon, rhai yn adnabyddus ond eraill yn ddiarth i'r gynulleidfa.Cafwyd alawon yn olrhain y traddodiad canu werin yn yr oesoedd a fu , detholiad o ganeuon serch caneuon digri a phenillion llafar di gyfeilant. Dyma noson gofiadwy oedd yn dangos fod y traddodiad canu gwerin yn ddiogel yn ei ddwylo ef.




***Gwilym yn canu***


Ar Mawrth 10fed daeth Geraint Jones, Trefor atom i sôn am John Preis, y Crwydryn. Mae Geraint wedi ysgrifennu llyfr am John Preis ac wedi casglu llawer o hanesion difyr amdano. Cyhoeddwyd y



***Geraint Jones a Devida Broadbent***

gyfrol gan Ganolfan Hanes Uwch Gwyrfai. Fe aned John Preis yn 1894 yn Nyddyn y Garreg, Capel Uchaf, Clynnog. Roedd ei dad, Richard Preis, yn ffermio yno. Roedd llawer yn ei adnabod yn Eifionydd, Dyffryn Nantlle, Pen Llŷn a Môn ond weithau byddai'n crwydro i Geredigion a rhannau eraill o Ogledd Cymru, Lloegr (yn cynnwys Lerpwl) a'r Alban. Nid oes neb yn gwybod paham y dechreuodd grwydro. Cafodd lid yr ymennydd pan yn ifanc ac efallai fod hynny wedi effeithio ar ei bersonoliaeth. Bu ei fam farw yn 1918 a'i dad yn 1924 ac wedi hynny penderfynodd fynd i



***Evie yn gwneud ei bwynt***

grwydro. 'Roedd yn dweud ei fod wedi bod yn ymladd yn y Rhyfel Byd cyntaf ond mae'n amhosib profi hyn. Dyn digon blin ac anniolchgar oedd John Preis. Byddai'n cysgu dros nos mewn adeiladau ffermydd e.e. beudai ac yn cael ei fwyd gan y ffermwyr. Roedd ganddo ei ffordd arbennig ei hun o siarad a defnyddai y geiriau 'hen, sglyfath a baw' yn aml yn ei sgwrs. Bu farw ar Hydref 15 1985 yn 91 oed a chafodd ei gladdu ym mynwent Capel Uchaf. Terfynwyd y cyfarfod trwy canu yr Anthem Gendlaethol yn ei chyfanrwydd.

Ar Mawrth 17 daeth Mr. Evie Jones o Lanerchymedd i'n diddanu - testun ei sgwrs oedd 'Y stori tu ôl i'r gân'. Yr oedd yn chwarae nifer o gryno ddisgiau a thapiau a rhaid oedd i ni ddewud pwy oedd yn canu ac ateb cwestiynau eraill. Wedyn cawsom hanes y perfformiad a'r gân. Mae gwybodaeth Evie am enillwyr Cystadleuaeth y Rhuban Glas yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn eang – fe wyddai enw pob enillydd, y flwyddyn a lleoliad yr Eisteddfod ar y pryd. Noson hwyliog i orffen rhaglen y tymor.

Ar y dydd Mawrth dilynol cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas. Cafwyd trafodaeth ar weithgareddau y Tymor ac 'roedd pawb yn gytun ein bod wedi cael rhaglen ddiddorol iawn. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith, merched y lluniaeth am eu gofal, Devida am hysbysebu gweithgareddau y Gymdeithas ar y cyfryngau a Beryl am baratoi adroddiadau i'r *Angor* bob mis. Mae David John Williams wedi ymddiswyddo o fod yn Drysorydd y Gymdeithas ar ôl 10 mlynedd a diolchwyd iddo am ei waith gan y Llywydd. Croeso i'r Trysorydd newydd sef Alun Davies. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod ym mis Ebrill i drafod rhaglen yr haf a pharatoi rhaglen y tymor nesaf.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Daeth ein Adroddiad Blynyddol allan a gwelir cryn raen arno, y cyfan yn glir a destlus a diolchwn am ysgwyddo'r cyfrifoldeb. John P. Lyons a gafodd y fraint o ddymuno yn dda i Elwyn Evans o gapel Noddfa, Oaker Avenue, Manceinion fel Llywydd newydd Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain, Cymerodd y ddau ohonynt, John a Elwyn ran yng ngwasanaeth Gŵyl Ddewi Cymry'r Ddinas a chynrychiolwyd ein heglwys hefyd gan Mrs Margaret Rowlands a Mrs Pam McNamara. Y



*John P. Lyons a Elwyn Evans*

mae'n dda uno fel hyn er fod pellter ffordd o Bethania i Bethel ond nid yn nhermau y teithio a wna Cymry'r America na Llundain.



*Marian Lyons ac Eflyn Evans yn yr Oedfa Ddinesig*



*Cymdeithasu cyn ymadael*

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cawsom bnawn hyfryd ar 23 Mawrth pan gynhaliwyd y Cyfarfod Dosbarth yn Ystafell y Blaenoriaid o dan lywyddiaeth Mr. John P. Lyons. Rhoddodd Mrs Phyllis O'Neill gyweirnod hyfryd i'r Seiat wrth ledio emyn William Lewis, Llangloffan, 'Cof am y Cyfiawn Iesu'. Paratodd ein Llywydd yn fanwl agoriad ar bapur Trafod y Cyfundeb ar Awdurdod y Beibl a chafwyd trafodaeth fuddiol o ansawdd arbennig. Yna cyflwynodd bapur arall yn seiliedig ar y ddogfen 'Ein Gweinidogaeth' a bu'n rhaid dirwyn y drafodaeth hon yn ei blas. Anfonwyd ein cofion at Mrs Morfudd Williams sydd ar hyn o bryd mewn Cartref Nyrsio yn Wallasey. Terfynwyd er mwyn mwynhau lluniaeth, a thynodd Terry O'Neill lun ohonom yn ymlacio yn haul y pnawn dros baned o de yn Seion.

Mae Mrs Morfudd Williams yn awr yn Leighton Court, Wallasey. Cafodd X-ray yn ddiweddar a mae'r asgwrn yn dechra gwella. Caeth X-ray arall mewn bythefnos. Mae sawl un o'r gynulleidfa wedi bod ei gweld yn enwedig Miss Iris Hughes-Jones fu yno pob dydd. Mae Iris yn well ar ôl ei chodwm. Braf ei gweld yn ôl. Mae Mrs Mair Rees Jones wedi bod yn gofalu am bethau yn fedrus iawn. Mae Mrs Dilys Askew wedi bod yn gweld yr arbenigwr i drin ei phen glin.

Diolch eto i'r rhai sydd yn rhoi lifftiau i sawl un ohonom.

## Cymdeithas Cymry Manceinion

Fis Ionawr, traddodwyd darlith ddiddorol ac addysgiadol gan Mr Elwyn Evans, Manceinion, yn dwyn y teitl 'Teithio yn ngogledd America'. Dechreuodd y daith yn Missouri a Gorffen yn Florida lle mae mab Elwyn, Alan a'i deulu yn byw. Dangoswyd lluniau ardderchog o'r daith a'r afon Missouri yn gwneud ei ffordd mor osgeiddig yn y machlud. Fel arfer, rhoddodd Elwyn ddarlith ag ôl paratoi trylwyr arni ac mae'n diolch yn fawr iddo.

Y Parch Robert Parry oedd ein gŵr gwadd ym mis Chwefror a theitl ei ddarlith oedd 'Casgliad o fy hoff englynion'. Cafwyd noson hamddenol yn gwrando arno yn darllen ei ffefrynnau a llawer ohonynt yn felys i'r glust ac yn gywrain eu gweithrediad. Mae angen cynildeb a meistrolaeth geiriau i roi englyn gofiadwy at ei gilydd. Ac i'r rhai ohonom sydd yn dod o'r gogledd, rhaid oedd cynnwys hen ffefryn:

*Pont Fenai*

*Uchelgaer uwch y gweilgi – gyr y byd*
*Ei gerbydau drosti*
*Chwithau, holl longau y lli,*
*Ewch o dan ei chadwyni.*

*Dewi Wyn o Eifion*

Dyma unwaith eto, ddod â gweithgareddau Cymdeithas Cymry Manceinion i ben ar ôl tymor llwyddiannus iawn a chefnogaeth deilwng i bob darlith.

## Cymdeithas Birkenhead

Yn ôl ein harfer, dathlwyd gŵyl ein nawddsant gyda gwasanaeth yng Nghapel Seion ar Fawrth 1af. Ein siaradwr eleni oedd Mr Tegwyn Williams, Llanelwy. Un o blant Cymry Birkenhead, yw Tegwyn, wedi ei eni a'i fagu yma mewn teulu a fynychai "Capel Bach" Woodchurch Road. Wedi symud i Gymru, cafodd Tegwyn swydd gydag Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru. Mae'n weithgar iawn yn ei gapel, mewn gweithrediadau Cymreig, a bu am rhai blynyddoedd yn un o drefnwyr yr Ŵyl Pan Geltaidd.

Cymerodd eiriau o'r Apocryffa yn destun, "Canmolwn yn awr y gwŷr

enwog", gan ganolbwyntio ar Dewi ac amryw o seintiau Celtaidd ledled y wlad, a phroffwydi'r Hen Destament. Roedd dylanwad Dewi ar nifer o saint Cymru a gogledd Lloegr yn gryf. Ceir hanes am lawer ohonynt yn teithio at gell Dewi am ddysgeidiaeth ac arweiniad. Mae un yn arbennig iawn yn hanes yr eglwys cynnar yn Nghymru, sef Mungo, a etholwyd yn archesgob Glasgow yn un ar hugain oed. Ei enw bedydd oedd Kentigern, enw sy'n fwy cyfarwydd i ni efalle. Teithiodd Cumbria ar ei ffordd i gyfarfod Dewi. Sefydlodd eglwys yn Llanelwy yn 560 a bu yno hyd 573 pan alwyd ef yn ôl i' r Alban yn y flwyddyn 550, a sefydlodd nifer o eglwysi yno – llawer yn bodoli hyd heddiw. Trosglwyddodd yr ofalaeth yn Llanelwy i'w ddilynwr, Asaph.

Efengylwr oedd Dewi, a'i brif bwrpas oedd lledaenu neges Crist i'w genedl. Oherwydd hyn roedd yn ŵr enwog a dylanwadol yn ei oes. Diolch i'r seintiau cynnar am bregethu'r efengyl a sefydlu eglwysi drwy'r wlad. Diolchwn ninnau am eu hetifeddiaeth ac am sirchau fod neges Crist wedi cael effaith diddiwedd ar ein cenedl.

Mae bob amser yr bleser croesawu cyfaill o Lerpwl atom a mawr yw ein dyled i lawer ohonynt am eu cefnogaeth o'n Cymdeithas 'dros yr afon' a'u parodrwydd i gymeryd rhan yn ein cyfarfodydd. 'Detholiad o Arlunwyr Cymreig' oedd gan Dr Pat Williams ar nos Lun, Mawrth 8fed. Fel y disgwyliwn, cawsom noson arall hynod o ddifyr, addysgiadol, ac agoriad llygad i faes sydd digon niwlog i lawer ohonom. Clywsom yr enwau ond heb wybod lawer o fanylion am y gwŷr, ac un ferch, talentog hyn.

Yr arlunwyr dan sylw oedd Richard Wilson, Thomas Jones, Augustus a Gwen John, Evan Williams a Christopher Williams. Gwelsom ddetholiad o'u gwaith, a'u lleoliad, yn ymestyn o 1714 i 1934 hanes eu bywyd a' r dylanwadau arnynt a manylion diddorol am gefndir a symbyliad rhai o'u darluniau pwysicaf. Mae enghreifftiau o waith amryw ohonynt ar gael yn lleol yn Oriel Walker, Lerpwl, a Lady Lever yn Port Sunlight. Boddhad oedd deall bod arlunwyr Cymreig wedi eu cydnabod gan arbennigwyr celf Lloegr ac Ewrop ac i'w dylanwad ymestyn tu hwnt i wlad eu genedigaeth, ac chael cyndabyddiaeth rhyngwladol.

Gwnaed y diolchiadau gan Dafydd Roberts gan ddatgan gwerthfawrogiad pawb am noson ardderchog.

Croesawyd Mr Cledwyn Thomas, Bromborough, atom ar nos Lun, Mawrth 23ain gyda'i ddarlith ar "Hanes Lerpwl". Brodor o Lanrwst yw Mr Thomas wedi cael ei addysg yno, ac ym Mhrifysgol Abertawe. Mae wedi ymddeol wedi blynyddoedd yn darlithio ar beirianwaith sifil yn Mhrifysgol Lerpwl. Mae galw mawr amdano yn darlithio yn Saesneg ar hyd yr ardal, ar ei hoff bwnc, hanes. Cyfaddefodd mai dyma'r tro cyntaf iddo ddarlithio yng Nghymraeg, ond nid oedd angen iddo ymddiheuro am ei ddiffygion iaith. Anodd gennym gredu nad yw wedi siarad Cymraeg ers pedair blynedd. Clywsom acen dyner Dyffryn Conwy yn llifo'n rhwydd ganddo wrth draethu hanes Lerpwl o'r Canol Oesoedd, hyd heddiw gan dynnu ein sylw at hanes a chefudir adeiliadau iconig sydd bellach yn fwy cyfarwydd fel siopau, rhodfeydd a thai bwyta. Mae un o'n aelodau yn cofio aros yn y *"Sailors Home"* lle saif John Lewis heddiw. Yn yr adeilad, hon roedd giatiau a "balconies" o waith haearn bwrw (cast iron) hynod o hardd a chywrain. Mae rhai ohonynt i'w gweld ar neuadd y dref, Port Meirion, a'r giatiau unigryw wedi eu hachub a'i gosod yn ôl yn y ddinas.

Gwelsom lun o Chorley Court yn ardal dlawd, budr, afiach lle y trigai ugain o deuluoedd mewn amodau difrifol, ond yma ganwyd Robert Morris yn 1734. Ymfudodd i'r U.D.A. yn dair ar ddeg oedd, graddiodd yn Oxford, Maryland, daeth yn gyfoethog drwy fasnach, yn gyfaill i George Washington ac yn un o dri a arwyddodd ddogfennau sefydlu'r U.D.A. Ef hefyd oedd yn gyfrifol am gynllun cyllid cyntaf y wlad, sy'n parhau fel sylfaen athroniaeth ariannol yr UD.A.

Mae'r newidiadau ar lan yr afon ac yn y dociau yn gyfarwydd i ni gyd, ond mae'r rhan yma o'r ddinas yn frith o fanylion hanesyddol a masnachol o'r dyddiau pan oedd Lerpwl yn ail ddinas y wlad. Mr John Mann oedd yn cadw siop lle mae Mann Island bellach ac mae nifer fawr o gerfluniau yno gan y cerflunydd lleol Tom Murphy, pob un a'i stori unigryw a gwerthfawr. Mae gwybodaeth Mr Cledwyn Thomas yn ddi-fesur, a braint oedd cael gwrando arno.

Diolchodd Mr Tom Thomas iddo am ein diddori, ein haddysgu ac agor ein llygaid at yr hanes sydd o'n cwmpas. Cawsom noson arbennig iawn.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Bu'r Gwasanaeth Dinesig ar Mawrth y Cyntaf yn llwyddiant. Croesawyd Arglwydd Faer Lerpwl, y Cynghorydd Erica Kemp, C.B.E. a Chynghorwyr eraill i'n plith gan Dr. Rees a chan Dr. John G. Williams fel Llywydd y Mis.

**Coffâd**

# Elizabeth Mary Jenkins,

### Waterloo, Lerpwl (1923 - 2015)

**Blin iawn yw cyhoeddi marwolaeth Elizabeth Mary Jenkins, annwyl briod y diweddar Barchedig Ieuan A. Jenkins a fu yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yng nghapel Penri, Caer a Chapel y Bedyddwyr Cymraeg, Edge Lane, Lerpwl.**

**Ganwyd Beth, (fel yr oedd pawb ohonom yn ei hadnabod) yn Evesham, ardal hyfryd o Loegr ond treuliodd llawer o'i amser cynnar yng Nghymru a gweithio yno mewn swyddfa, a dod yn rhugl yn yr iaith a'n traddodiadau.**

**Priododd a Ieuan yn y pumdegau, a ganwyd annwyl ferch iddynt, sef Liz, a fu o dan law meddygon o'i babandod, ac am lawer blwyddyn arall yn ei hanes. Bu hyn yn amser pryderus a gofidus i'r teulu annwyl. Yn ystod gweinidogaeth y Parchedig Ieuan A. Jenkins bu Beth yn barod iawn ei chefnogaeth, ac fel llawer o wragedd bregethwyr y cyfnod hwnnw yn weithgar o fewn yr eglwysi. Roedd yn organyddes o radd uchaf.**

**Bu'r arwyl ar ddydd Mercher, 11 Mawrth 2015 yn Amlosgfa Thornton, o dan ofal Cymdeithas Hiwmanistiaeth, gyda llawer o'i chyfeillion yn cyfrannu tuag at y gwasanaeth. Soniodd rhai am ei phersonoliaeth ac eraill yn sôn am ei hiwmor, parod mewn gair a gweithred. Bu yn garedig iawn i lawer o Gymry Waterloo fel Mr. Ritchie Richards. Cyfeiriwyd hefyd at y gwyliau roedd Beth a Liz wedi ei dreulio dros nifer fawr o flynyddoedd yn yr un fangre yng ngwlad Twrci. Gwelwyd y ffrindiau agos oedd yno, a hyfryd oedd y blodau lliwgar a anfonwyd i Thornton er cof amdani.**

**Yn anffodus, nid oedd Undeg Cole (Crosby gynt) yn medru bod yn bresennol yn yr arwyl, oherwydd afiechyd ei gŵr. Bu Beth ac Undeg yn ffrindiau da am yn agos i hanner can mlynedd yn y blynyddoedd diwethaf ers symud ni Abertawe trwy gyfrwng y ffôn ran amlaf ac ambell i ymweliad.**

**Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf i Liz yn ei hiraeth ar ôl mam dda.**

**Ken Williams**

Cyhoeddwyd llyfryn gan Dr. Rees a chymerwyd rhan yn yr oedfa gan yr Arglwydd Faer a'r Cynghorydd Eryl Owen, gan arweinwyr y capel a'r Cymdeithasau ac ieuentid Bethel, gan Mr. Elwyn Evans, Manceinion fel Llywydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain a chan Miss Iris Hughes Jones yn cynrychioli Seion, Penbedw, a Mr. John P. Lyons yn cynrychioli Bethania, Waterloo. Cawsom anerchiad pwrpasol iawn gan Dr. Rees ar Ddewi Sant. Yr organydd oedd Mrs Margaret Anwyl Williams. Cymerwyd rhan hefyd gan Gantorion Bethel dan arweiniad Mr. R. Ifor Griffith trwy ganu 'O Gymru' gan y diweddar Rhys Jones. Ar y diwedd gwahoddwyd yr holl gynulleidfa i'r Ganolfan i fwynhau lluniaeth ysgafn a phaned. Siaradodd yr Arglwydd Faer. 'Roedd wedi ei phlesio yn arw gyda'r Oedfa a'r croeso ac 'roedd yn gobeithio y buasai hyn yn digwydd yn flynyddol.

Trist iawn oedd gennym fel Eglwys glywed am farwolaeth Mrs M. Williams, Rhostryfan, sef mam Mrs Beryl Williams, Gwydrin Road, ar Fawrth 2. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Mawrth, Mawrth 10. Meddyliwn am Beryl, John, Rhys a Sara ac am chwiorydd Beryl a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Yna, ar Fawrth 5 bu farw un o'n haelodau, sef Mrs Mary Alice Willams, Hornby Lane yn dilyn triniaeth llaw-feddygol yn yr Ysbyty Frenhinol. Roedd Dr. Rees gyda hi ar y noson olaf. Daeth cynulliad da i'r angladd ym Methel ar Fawrth 16, yn cynnwys cymdogion a chyfeillion, rhai o Gorawl Cymraeg Lerpwl. Cafodd deyrnged dda gan Dr. Rees a soniodd am ei chefndir yn Llŷn a'i gwaith ym Methel ar hyd y blynyddoedd. Yn ôl ei dymuniad, canwyd emyn addas iawn gan Mrs Anne M. Jones a Mr. R. Ifor Griffith, sef "Mi glywais lais yr Iesu'n dweud tyrd ataf fi yn awr". Hefyd canwyd y gân Saesneg, 'Smile' gan Dawn Williams, un o wyresau Mary. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Mr. Gareth Williams, mab Mary, ei wyrion a'i wyresau a'r teulu i gyd.

Ar Fawrth 9 yn y Gymdeithas Lenyddol cawsom ddarlith ar Meuryn, sef R. J. Rowlands, y bardd a'r llenor gan Mr. Myron Jones, Calderfield Road. Cyflwynwyd ef i'r gynulleidfa gan Lywydd y cyfarfod, Mr. John P. Lyons a ddywedodd iddo gyfarfod ein siaradwr yn y Cylch Pump a'r Hugain flynyddoedd yn ôl. Mae wedi ymddeol ers wyth mlynedd ac mae'n hoff o gerdded, o adareg (edrych ar adar) ac o gerddoriaeth a darllen. Mr. Walter Evans Jones o Riw yn Llŷn oedd ei dad a chofiwn ei fam, Mrs Buddug Jones yn dda gan ei bod wedi bod mewn sawl Cinio Gŵyl Ddewi a gwasanaeth gyda ni ac yn annwyl iawn yn ein golwg. Priododd Mr. Myron Jones â Fiona o Inverness ac mae iddynt fab a merch. Mae'r mab, Ian Richard, yn "Choral Vicar" yng Nghadeirlan Wells yng Ngwlad yr Haf ac mae'r ferch, Ceri Jane, yn athrawes yn Ysgol St. Paul's yn West Derby. Aeth Mr. Myron Jones o Ysgol Troed yr Allt i Ysgol Ramadeg Pwllheli, yna i Brifysgol Lerpwl. Bu'n Bennaeth Gwyddonol Ysgol Carr Lane ac yna yn Ddirprwy Brifathro yn y Dingle.


Cawsom ddarlith hynod o ddiddorol iawn ar Meuryn, sef Robert John Rowlands a anwyd yn Abergwyngregin. Cafodd ddamwain i'w glun pan yn dair oed a bu'n gloff am y gweddill o'i fywyd. Gweithiai mewn siop yn Llanfairfechan cyn dod i Lerpwl i Swyddfa Argraffu Isaac Foulkes, perchen y newyddiadur 'Gymro'. Daeth yn ohebydd i'r 'Darian' a'r 'Herald Gymraeg'. Enillodd gadair Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1921 gyda'r barddoniaeth hyfryd, 'Min y Môr'. Yn yr un Eisteddfod coronwyd y bryddest 'Mab y Bwthyn' gan Cynan, gwaith yn llawn o siom a gwacter ysbryd.

Ym 1937 dychwelodd Meuryn i Gymru fel Golygydd yr 'Herald' a'r 'Genedl', erbyn hyn yn un papur. Bu hefyd yn Olygydd 'Y Genhinen'. Daeth ei enw, Meuryn, yn enw newydd yn yr iaith fel term am feirniad mewn Ymryson Beirdd. Rhaid cofio mai yn ogystal a'i farddoniaeth, roedd gan Meuryn bymtheg cyfrol o lenyddiaeth, a thri a'r ddeg ohonynt ar gyfer ieuenctid. Ysgrifennodd nofelau a chyfrolau o farddoniaeth. 'Roedd yn hoff iawn o nofelau ditectif.

Ym 1926 ysgrifenodd 'Ar Lwybrau Antur' ac ym 1944 'Anturiaethau' sydd yn sôn am fwystfilod yr Affrig. Yn y gorffennol, gwahoddodd Dr. D. Ben Rees ddau ŵr i ysgrifennu i'r *Angor* gyda'u hatgofion o Meuryn. Un oedd T. Meirion Hughes. Cofiai fod Meuryn yn hoff o waith T. Gwynn Jones a'i gynghanedd. Enillodd Meuryn yn Eisteddfod Lerpwl, ond defnyddiodd rhywun arall ei waith i ennill mewn Eisteddfod arall. Aeth Meuryn yn gandryll wedi clywed am y llên-ladrad hwn. Yr ail ŵr oedd Dic Goodman. Roedd Meuryn yn arwr iddo. Galwodd ef yn un a'i enaid yn llawn barddoniaeth. Bu Dic yn mynychu Dosbarthiadau nos y W.E.A. gyda Meuryn fel athro. Dywedodd fod Meuryn yn bersonoliaeth cadarn, ond gallai fod yn bigog ar adegau. Diolchwyd i Mr. Myron Jones gan Mr. John Lyons a chan Dr. D. Ben Rees. Mwynhawyd ei ddarlith yn fawr a diolchwn iddo fel Cymdeithas Lenyddol. Dyma ddarlith werth ei chlywed.

Ar brynhawn Llun, Mawrth 23 cawsom Gyfarfod Dosbarth yng Nghapel Seion, Penbedw. Cynrychiolwyd y tair eglwys ar Lannau Mersi. Bu cyfarfod gan y blaenoriaid ar y dechrau, yna cyfarfod agored a ddechreuwyd trwy ganu'r emyn "Cof am y cyfiawn Iesu" a lediwyd gan Mrs Phyllis O'Neill. Yr organydd oedd Mr. Terry O'Neill. Clywsom ddarllen gwaith a baratowyd gan Mr. John P. Lyons, Bethania, ar gyfer yr Henaduriaeth. Gobeithiwn gael ei weld cyn hir yn 'Yr Angor'. Cawsom groeso cynnes gan aelodau Seion, gyda phaned o de a lluniaeth ysgafn cyn ymadael. Diolchwn yn fawr iddynt. Roedd yn amser bendithiol gyda'n gilydd.

Daeth llun Harri Griff Roberts, Cressington y diweddar i'w eni ymhlith Cymry Lerpwl a da yw ei groesawu i'n colofn ar ddechrau'r daith.




***Harri Griff Roberts***

CANGEN LERPWL O BRIFYSGOL CYMRU

Cyflwyniad yn Saesneg

ar

**Nos Lun, 27 Ebrill 2015**

**am 7.30 o'r gloch**

gan

**YR ATHRO**

**MARI LLOYD WILLIAMS**

ar

## *Ageing and the Welfare State*

BYDD CYFLE I OFYN CWESTIYNAU.

*Gwneir casgliad tuag at y costau*

# Rhaglen Gŵyl Mimosa

## (Nos Wener Mai 29 i bnawn Sul, Mai 31, 2015) yn Lerpwl o dan nawdd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi, a thrwy gymorth Garedigion yr Ŵyl

**Trefnwyd y rhaglen ganlynol:**

**NOS WENER, 29 MAI 2015** yn Neuadd Canolfan y Crynwyr (Quaker's Meeting House, School Lane) yng nghanol y ddinas am 7.30 o'r gloch pryd y ceir Noson ar **Cefndir a Chyflwyno y Mimosa.**
Ceir cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg gan Dr. D. Ben Rees (cefndir), Wayne Jones, Llandeilo (y llun a'r print), Susan Wilkinson, Toronto, **Mimosa** a Ian Pollitt o Peel Holdings ar Yfory, a'r Dadorchuddio.
Y Cadeirydd: Roderick Owen

**SADWRN, 30 MAI**
**Bore Sadwrn ceir dewis**
***a) Cerdded o Otterspool i Doc Albert*** (5 milltir) yng nghwmni Cymdeithas Edward Llwyd dan arweiniad Alun Davies
***b) Dwy sesiwn yn Amgueddfa Morwrol Lerpwl*** *(Merseyside Maritime Museum).*
I gasglu erbyn 10.15 o'r gloch. Cyflwyniad 30 munud ar y Mimosa gan Gwmni Theatr Clwyd, Wyddgrug, ac yn dilyn am 10.50 gan ddarlith ar Arloeswyr y Mimosa gan Elvey MacDonald, Llanrhystud.

11.45 - 12.00 – Toriad am baned.

12.00 - 12.50 – **Seiat Holi yng nghwmni Marli Pugh, Gaiman, Irma Roberts a Wendell Davies o'r Wladfa. Llywydd: Arglwydd Dafydd Wigley.**
Holwr: Yr Athro D. Ben Rees
Bydd angen tocyn neu talu wrth y drws yn y bore.

**3 o'r gloch – DADORCHUDDIO Y GOFEB** ger Swyddfa Peel Holdings ac ymyl Doc Princes (ffordd yn mynd heibio Crowne Plaza – rhoddir y cyfarwyddiadau yn y rhifyn nesaf ac yn y Llawlyfr).
Y Seremoni yng ngofal Dr. Huw Edwards, Llundain a cheir cyfraniadau gan Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, AC., Maer Lerpwl, Christine James (Archdderwydd Cymru), Cadeirydd Cymdeithas Etifeddiaeth. Cenir gan Ysgol Gymraeg Trelew a cheir eitem gan Gwmni Drama Theatr Ieuenctid Clwyd.

**Nos Sadwrn am 7.30 o'r gloch** yng Nghapel Methodistiaid Saesneg, Elm Hall Drive, Allerton (ger Penny Lane) yng nghwmni **Côr Merched Edeyrnion** (Arweinydd: Manon Easter Lewis). Unawdwyr: Siôn Goronwy a Trebor Edwards. Llywydd: Yr Athro Huw Rees. Tocynnau ar gael erbyn Ebrill 26.

**Sul, Mai 31, 2015**
**Oedfa'r Mimosa am 10.30 yng nghapel Ysgol Uwchradd Bluecoat, Church Road, Wavertree**
*Llywydd:* Dr. D. Ben Rees. *I ddarllen:* Parch Tegid Roberts, Llanrug.
*I bregethu:* Parchg. R. W. Jones, BA, Wrecsam.
*I gymeryd rhan:* Ysgol Gymraeg yr Hendre, Trelew a Chantorion Bethel
**O 12 o'r gloch i 1.45** darperir lluniaeth a chyfle i gymdeithasu mewn ystafell helaeth yn Ysgol Bluecoat. Darperir hyn gan gwmni preifat a chymorth chwiorydd Cymry Lerpwl.
**2 o'r gloch –** Cynhelir **CYMANFA GANU** o dan ofal Mr. R. Ifor Griffith. Llywydd: David Mawdsley, Bodfari. Cyflwynir gan Dr. D. B. Rees. Defosiwn: Parchg. R. W. Jones.

Ceir gwybodaeth yn y rhifyn nesaf o'r Angor a bydd **Llawlyfr yr Ŵyl** allan ar ddydd Gwener, 1 Mai.
Anfoner amdano (pris £3 trwy'r post) i Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW neu benatgarthdrive@talktalk.net

*Coffâd*

# Mrs MARY ALICE WILLIAMS, Calderstone, Lerpwl

**(1929-2015)**



**Daeth yr alwad i Mari Alice fel y gelwid hi gan ei ffrindiau ar Nos Fercher, 4 Mawrth yn Ward 8B (HD) Ysbyty Frenhinol Lerpwl a hynny yng nghwmni ei mab, Gareth, ei wyresau, Non a Siân a'i Gweinidog. Yr oedd hi yn un o aelodau hynaf Bethel o ran nifer y blynyddoedd y bu hi ar lyfrau'r capel. Un o ferched gwlad Llŷn ydoedd a ysgrifennodd aml i erthygl dros y blynyddoedd diwethaf i'r Angor yn croniclo y tri degau anodd, ei magwraeth, ei rhieni a chofiwn am ei gofal am ei Mam, Mrs Jane Owen a ddaeth i fyw i ddinas Lerpwl, a bu yn ofalus ohoni. Sonia un o'i chyfoeswyr, y Parchg. Emlyn Richards, Cemaes yn ei hunangofiant *O'r Lôn i Fôn* (Caernarfon 2006) amdani yn Ysgol Sul y Methodistiaid Calfinaidd yn Rhyd-bach. Byddai holl blant y pentre yn mynychu yr Ysgol Sul a'r Band of Hope ar Nos Wener i ddysgu canu ac adrodd ac actio. Ceid cyfle i bawb. Ac y mae ef yn enwi llu o'r merched oedd yn mynychu y Band of Hope, a dyma genhedlaeth Mari. Dywed Emlyn: 'fe ddaw hiraeth am eich nabod chi bob un – Mary Alice, Mari Pentra, Tudwen Pont y Gof, Sera Eirwen ac Elenor'. O'r Ysgol Gynradd aeth Mary i'r Cownti Sgŵl, i Ysgol enwog Hen Hogia a Genod Gwlad Llŷn. Un o'r athrawon penna'r Ysgol oedd Gruffydd Parry, yr athro Saesneg ac ef a ddisgrifiodd yr Ysgol hon fel hyn:**

***O'r Sarn ac Aberdaron,***
***Tudweiliog, Abersoch,***
***O'r Rhiw neu o Lanengan,***
***O ba le bynnag boch –***
***Yr Ysgol orau welwyd***
***Fe wyddom ni bob un,***
***Yw Ysgol Sir Botwnnog***
***Hen Ysgol Hogia Llŷn.***

**Cofia Mari y Prifathro D. R. Griffith, gŵr byrdew a chanddo fawr o ddisgyblaeth. Un o'r athrawon y sonia Mari amdano oedd Waldo Williams o Sir Benfro, sydd bellach yn un o feirdd mawr y genedl Gymraeg. O Botwnnog cafodd gyfle i baratoi ar gyfer bywyd athrawes yng Ngholeg Normal Bangor. Daeth i Lerpwl fel cannoedd eraill yn y pumdegau a dyma a fu ei dinas barhaus byth oddi ar hynny.**

**Pan ddeuthum i'w hadnabod yn Henley Road, Allerton yn 1968 yr oedd hi yn wraig ac yn fam, gwraig fferyllydd annwyl ryfeddol Griff Williams a mam i Glenys a Gareth. O fewn dwy flynedd symudodd i gysgod Eglwys Mossley Hill yn Kylemore Road ond yr oedd yn amlwg iawn fel athrawes yr Ysgol Sul y Plant. Rwy'n cofio y tîm yr adeg honno: Alwena Davies, Louie Jones, Cathy Jones, Meinwen Rees, Nan Hughes Parry, Ceri Roberts a Mary Williams. Y mae gennym lawer i ddiolch iddi hi a'i chydweithwyr glew a gweithgar. Yr oedd y saithdegau yn flynyddoedd gweithgar a hithau ynghanol y bwrlwm. Daeth newid sydyn a phrofedigaethus i'w hanes gan marwolaeth ei phriod ag yntau yn ei bumdegau, yn wasanaethwr na fu mo'i well i gymdeithas. Cafodd drawiad ar y galon, ac o fewn tair blynedd symudodd Mary i dŷ newydd yn Hornby Lane, o fewn tafliad carreg i barc Calderstones. Yr oedd yn hoff o ganu a bu yn aelod teyrngar o Undeb Gorawl Cymry Lerpwl. A bu hi ddiwrnod anodd iddi pan y bu'n rhaid iddi roddi'r gorau, nid rhyfedd iddi nodi ei bod am i ddau a fu fel hithau yn rhan annatod o'r Côr i gymryd rhan yn ei chynhebrwng, sef Anne M. Jones a R. Ifor Griffith.**

**Gwynebodd ar groes fawr ym marwolaeth ei merch, Glenys, yn 41 mlwydd oed yn 1998, a bu ei hun mewn damwain fawr, ond goresgynodd y cyfan yn ei ffydd a'i chymeriad. Daeth yn ffrindiau gyda Chymro o Sir y Fflint, Glyn, o 1991 i 1998, a chawsom aml i seiat ddiddorol yn ei gwmni ef. Nodwedd fawr ei chymeriad oedd ei llawenydd a'i balchter o'i theulu. Gwraig gofalus, ddi-droi-nôl, beirniadol iawn ar brydiau, a chwbl annibynnol. Bu'n ffodus o'i theulu, ei chymdogion a'i ffrindiau o'r Capel. Mynnodd aros yn ei chartref gan ddibynnu ar help y gofalwyr, ac ymddiddorodd yn y mab a'i briod, y plant gan ddotio at yrfa Dawn ar y llwyfan, a bu yn ei gwylio yn perfformio yn Lerpwl a Manceinion.**

**Bu'r arwyl ar fore Llun, 16 Mawrth ym Methel o dan fy ngofal ac yn dilyn yn Amlosgfa Springwood. Roedd mor drefnus fel ei bod wedi paratoi ei gwasanaeth angladdol, y darlleniadau, y Gweinidog a'r emynau. Bydd hi'n chwith hebddi, dioddefodd yn ddewr, a chadwodd ei ffydd yn lân loyw.**

**D. Ben Rees**

## CYNGERDD UNDEB CORAWL LERPWL

Cynhaliwyd Cyngerdd llwyddiannus iawn gan y Côr yn Eglwys Sant Andreas, Maghull yng nghanol mis Mawrth. Talwyd teyrnged deilwng gan y Llywydd, yr Athro Huw Rees, i aelod poblogaidd, weithgar a ddiymhongar o'r Côr sef Bob Metcalf a fu farw yn ystod tymor y Nadolig. Uchafbwynt y cyngerdd oedd perfformiad o Offeren i'r Meirw gan Fauré. Edrychwn ymlaen at ei Cyngerdd nesaf ym mis Mehefin 6ed yn y Neuadd Fawr, Cornerstone. Am fwy o fanylion ewch i Wefan y Côr sef http://www.lwcu.co.uk




Annwyl Olygydd,

### DR BEN REES A CHANTORION BETHEL

Hoffwn ddiolch i'r Parchedig Athro D. Ben Rees am yr holl waith a wnaiff i ni Gymry Lerpwl yn gyson a'n cadw ni yn y "pethe".

Yr oedd yr oedfa a gawsom fore Dydd ein Nawdd Sant Dewi wedi cael ei threfnu gyda chymaint o frwdfrydedd ganddo a wedi golygu llawer o alwadau ffôn, e-bost ac ar lafar i ddod i'w chyflanrwydd. Mae yna gymaint o edmygedd i'r Parchedig yn y capel a'r ddinas. Mae pawb yn barod i'w gefnogi pan yn gofyn ini gymeryd rhan, anodd yw dweud na wrtho.

Diolchaf hefyd i Gantorion Bethel dan arweiniad Mr. Ifor Griffith am eu canu bendigedig yn yr oedfa. Roedd eu cyfraniad o'r gân "O Gymru" gan y diweddar Rhys Jones yn wefreiddiol a'r nodau uchel yn ddigon i godi'r to.

Diolch yn fawr Mr. Rees am oedfa fendigedig.

# NOSON HWYLIOG YM MANCEINION




*Lilian Garrett yn derbyn y gadair am gyfansoddi emyn-dôn*

Ar nos Sadwrn, Mawrth 28ain, noson stormus a gwyntog, daeth aelodau y ddau gapel Cymraeg at ei gilydd i gynnal noson o adloniant – Eisteddod yr Ofalaeth. Bu'r beirniaid yn brysur, y Parch Ddr Huw John Huws yn delio a'r llenyddiaeth a Mr Gareth Evans yr emyn-dôn. Enillydd yr emyn-dôn eleni oedd Mrs Lilian Garrett. Yn llenyddol, Mrs Anwen Morris ddaeth i'r brig yn y llinell goll, Mrs Lilian Garrett ar y cyfieithu a Mrs Anne Hunt ar y delyneg. Yn gerddorol, cafwyd ddau grwp lleisiol, deuawd, unawd ac offerynwyr. Roedd llawer stori ac adroddiad digri yn ogystal a darllen darn o farddoniaeth. Mr Iestyn Roberts gafodd y wobr am ei Swiss-rôl blasus ac arweinydd medrus y noson, Mr Elwyn Evans, fu'n llwyddiannus yng nghystadleuaeth y ffotograffiaeth. Aeth y gwpan arian yn rhannog eleni - chwe mis i Mr Glynn Morris a chwe mis i Mr Iestyn Roberts. Yn sŵn canu Côr Caersalem Lân, daeth noson lwyddiannus a hwyliog i ben.

**Anne Hunt**



*Iestyn Roberts a Glynn Morris, yn rhannu Cwpan Goffa David Williams*



*Enillydd y gystadleuaeth tynnu llun, y testun 'Glan y Môr'. (Bae Caernarfon, o Llanddwyn ar Ynys Môn)*

## DATHLU GŴYL DDEWI 2015 YN NOSBARTH MANCEINION YN NODDFA OAKER AVENUE

Ar nos Sadwrn, Chwefror 21ain, daeth aelodau capeli Cymraeg Manceinion at ei gilydd i ddathlu gŵyl ein nawddsant, Dewi. Roedd yr awyrgylch yn gynnes, y byrddau wedi ei gosod a'u haddurno ar gyfer yr achlysur a'r bwyd y n flasus – yr 'hotpot' arferol, teisen afal, caws a bisgedi a chwpaned o de. A'r cyfan wedi'i baratoi gan ferched gweithgar Noddfa Oaker Avenue gyda chymorth chwioirydd Altrincham.

Wedi galw enwau'r siroedd a chyfrif y rhai oedd yn dod o'r gwahanol siroedd yng Nghymru – hyn yn ddefod flynyddol – ymlaciodd pawb i wrando ar anerchiad Ann Crug Jones, un o blant Eglwys Pendleton gynt, ac yn ferch i'r diweddar Dafydd ac Elsie Crug Jones. Mae Ann yn byw yn Llewenni, ger Dinbych, ac yn dysgu yn ysgol y Creuddyn. Soniodd Ann am amryw o Gymry Manceinion a adawodd eu marc yma yn y ddinas ac yn y byd, a'r un mwyaf perthnasol inni oedd Ionawryn Williams sylfaenydd Cymdeithas Cymry Manceinion a'i dystysgrif hardd yn ein meddiant yn y capel. Diddorol hefyd oedd clywed bod dau ddyn wedi ymateb i'r alwad am genhadon i Fadagascar o Fanceinion yn nyddiau cynnar y genhadaeth yno, ond, fel y digwyddodd mor aml, bu iddynt farw yn fuan ar ôl cyrraedd ar yr Ynys oherwydd gwaeledd. Yn amlwg roedd Ann wedi ymchwilio yn fanwl a gwerthfawrogwyd hynny yn fawr. Balch hefyd oeddem o groesawu Helen, ei chwaer a gobeithio i'r ddwy deimlo'n gartrefol yn ein mysg.

Ar ôl yfed llwnc destun i Ddewi, cawsom adloniant gan aelodau'r capeli – yn ganu, cyd-ganu, adrodd a chwarae'r ffliwt i gyfeiliant y piano, y cyfan yn haeddu canmoliaeth uchel. Rydym yn ffodus iawn ein bod yn gallu cynnal noson mor amrywiol a hynny ochr draw i Glawdd Offa. Goreu Cymro, Cymro oddi-cartref. Gwir y dywediad, yma ym Manceinion beth bynnag. Ac ni fyddai unrhyw noson yn gyflawn heb ganu ein Anthem genedlaethol gyda brwdfrydedd i gloi noson lwyddiannus iawn.

# CORNEL Y TRYSORYDD
## MAI 2015

| | |
|---|---|
| Mrs Louie Jones, Allerton | £30.00 |
| Mrs Kathryn Norton, Woolton | £15.00 |
| Er Côf am Walter Rees Jones, Penbedw | £25.00 |
| Mr Neil Wyn Jones, West Kirby | £11.00 |
| Meinwen a Dr Dr. D Ben Rees, Allerton | £35.00 |
| Dr. Bethan a Hefin Rees, QC Harpenden | £15.00 |
| Mr. Dafydd Llywelyn Rees, West Hampstead | £15.00 |
| Parch Robert Parry, Wrecsam | £11.00 |
| Mrs Betty Lockyer, Betws Bledrws | £11.00 |
| **Cyfanswm** | **£168.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# Cinio Gŵyl Ddewi Lerpwl – gan Mair Powell

Mwynhawyd ein Cinio Gŵyl Ddewi gan dros hanner cant ohonom. Cynhaliwyd y Cinio ar Nos Sadwrn, 28 Chwefror yng Nghlwb Golff Woolton am y tro cyntaf. Awyrgylch braf a phawb yn gartrefol. Twm Morys, y prifardd a'r darlledwr o Lanystymdwy oedd ein Gŵr Gwadd y tro hwn. Cyflwynwyd ef gan Dr. D. Ben Rees. Rhoddodd hen fap o Gynmru i fyny gan ddangos ymhle y byddai'r iaith Gymraeg yn cael ei siarad. Ei destun oedd hen, hen benillion ac alawon gwerin anghyffredin Cymru. Darllenodd rai o'r penillion a chanodd eraill gyda llais hynod o swynol. Roedd penillion ffair a phenillion llofft stabal, rhai o'r Gogledd ac eraill o'r De. Dangosai rai hiraeth merched



***Y Prifardd Twm Morys yn ei afiaith***

a bechgyn ifanc am eu cartrefi wedi iddynt fynd oddi cartref i weithio. Byddai rhai ohonynt yn mynd i ben mynydd er mwyn cael edrych i lawr a syllu ar eu cartref. Dywedodd Twm Morys fod "genre" arbennig i'r penillion, tebyg iawn i'r bardd Longfellow yn ei waith *Hiawatha*. Roedd y Triban yn gysylltiedig â Morgannwg. O 1860 ymlaen daeth llawer o Saeson o Wlad yr Haf i fyw i Gymru. Daeth rhai penillion dwy-ieithog i fod, ond y rhai Cymraeg oedd yn gwneud argraff ac yn y para. Wrth sôn am ganu, dywedodd Twm Morys mai ei ffefryn o oedd Frank Sinatra, a soniodd amdano'n dod i Fanceinion ym 1953 ac yn canu ei holl ganeuon poblogaidd.

Enillodd Twm y gadair yn Eisteddfod Meifod ddeuddeng mlynedd yn ôl. Cawsom noson hwyliog a diddorol yn eu gwmni.

Cawsom glywed aml i stori a phenillion digri. Diweddodd ei sgwrs trwy ganu cân i'r ych, yn cynnwys y geiriau "Dere 'machgen i." Roedd yn sgwrs hynod o ddiddorol, yn llawn



***Yr Ystafell foethus***

hiwmor a phawb wedi eu plesio. Rhoddodd gopi i Mrs Meinwen Rees o'r llyfr cyntaf a argraffwyd gan Dr. D. Ben Rees, am Gwm Aberdâr, sef *Cyfoeth Cwm* o waith D. Jacob Davies.

Talwyd diolchiadau ardderchiog i'r Gŵr Gwadd gan Mr. Brian Thomas, Mossley Hill. Mae Twm Morys yn hoff iawn o'r sgwarnog, a rhoddodd Brian glustog hardd a chyfforddus iddo a brynwyd gan ei briod Hilda gyda lluniau o sgwarnogod arni. Mae'n diolch yn fawr i Dr. Pat Williams am roddi llety dros nos i'r Gŵr Gwadd. Mwynhaodd y croeso yn Menlove Gardens yn fawr. Bu noson y Cinio Gŵyl Ddewi yn noson gofiadwy, a braf oedd cael y Prifardd Twm Morys i Lerpwl.



***Lilian Coulthard a'i nith o Ffestiniog***



***Y byrddau a baratowyd gan Gwenfyl Bain a Lilian Coulthard***



***Gwenfyl Bain a Nerys Vaughan Jones***

# Ail fyw Gwefr Cofio Mimosa yn 1965

gan Roderick Owen

Cesglais rai lluniau o'r *Cymro* (3 Mehefin 1965) a'r *Daily Post* i'n hatgoffa ni o'r cannoedd a ddaeth yn niwedd Mai 1965 i Lerpwl i hwylio ar y Royal Daffodil am dair awr ar ddyfroedd y Merswy. Penllanw y daith oedd pan daflodd merch o'r Wladfa a Mrs Valmai Jones (Caergwrle), Ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Ariannin torch o flodau'r Mimosa i'r dyfroedd. Cyflwynwyd y dorch o Mimosa ar ran Corfforaeth Lerpwl gan yr Henadur D. J. Lewis i H. Humphrey Jones, Llywydd Pwyllgor Dathlu Lerpwl 1965. Gwisgodd llawer o ferched ddillad traddodiadol ar gyfer cofio'r fintai gyntaf.

Y gŵr a ofalai am y gwasanaeth crefyddol oedd y Parchedig Nefydd Hughes Cadfan, Llangynog ac un a anwyd yn y Wladfa. Yr oed ei dad a'i daid, Hugh Hughes, Cadfan o Lerpwl ar fwrdd y llong Mimosa yn 1865. Canwyd emynau Cymraeg ar fwrdd y Royal Daffodil o dan ofal Elfed Owen, Penbedw. Cafwyd 1,500 ar fwrdd y Royal Daffodil, edrychwn ninnau ymlaen am groesawu tyrfa gref yn niwedd Mai i ddadorchuddio'r Gofeb a fydd yn fwy parhaol na'r Royal Daffodil.




*Aelodau o Aelwyd De Lerpwl (Heathfield Road) a wisgai ddillad cyfnod yr arloeswyr yn y dathlu.*
*O'r chwith i'r dde: Joyce Jones, Belle Williams, Jane Hughes, Menna Owen ac Eleanor Hughes*



*Plant ac oedolion yn 1965 yn dringo i'r llong.*

*Y Royal Daffodil a'r dyrfa*



***Haelioni i'w Glodfori***

# APÊL MIMOSA MAI 2015

Y mae angen cyfalaf tuag at y penwythnos a gynhelir o Nos Wener, 30 Mai i bnawn Sul, 31 Mai, ac erbyn hyn cyhoeddwyd pedair rhestr o haelioni anghyffredin (Gweler rhifynnau *Yr Angor* o Rhagfyr 2014 /Ionawr 2015, Chwefror (2015), Mawrth (2015), Ebrill (2015) a dyma'r pumed rhestr yn rhifyn Mai o'r papur bro. Caiff yr holl restrau eu cyhoeddi yn llawn yn Llawlyfr yr Ŵyl a fydd ar gael ar ddydd Mercher, 6 Mai, diwrnod cyn y pleidleisio)

**Y PUMED RESTR (i 1/4/2015)**

1. Mrs Olwen Roose Jones, Wallasey ........................................£30
2. Cymru a'r Byd/Wales International (trwy law Mr. Meirion Williams, Llanelli, y Trysorydd) .........................................£250
3. Mr. Meirion Williams, Llanelli, Sir Gaerfyrddin ...................£25
4. Ms Maira Foster, Middlewich, Sir Gaer .................................£25
5. Miss Jane Lloyd Hughes, Llandudno .....................................£20
6. Cymdeithas Cyn-Ddisgyblion Ysgol Dr. Williams, Dolgellau er cof am y llenor Eluned Morgan (1870-1938) Y Wladfa a chyn ddisgybl o'r ysgol (trwy law yr Is-lywydd Miss Jane Lloyd Hughes) .......................................................................£50
7. Cangen Merched y Wawr, Llanrug ger Caernarfon (trwy law y Trysorydd, Mrs Megan Roberts)..........................£30
8. Mr a Mrs Norman Short, Bangor, Gwynedd ..........................£15
9. Mrs Nerys Jones, Grassendale, Lerpwl ..................................£20
10. Dr. Eirian Meredith, Grassendale, Lerpwl............................£20
11. Dr Vanesa Martlew (Wallasey) a Chlwb Rotari dinas Lerpwl .........................................................................£10
12. Mr. Cec Jones (Heswall) a Chlwb Rotari dinas Lerpwl ........£10
13. Cymdeithas Gymraeg Amwythig/Shrewsbury (trwy law yr Ysgrifenyddes, Ann Rees) .............................£100
14. Trefor ac Eirina Roberts, Trefebin/Bebington ......................£25
15. Pwyllgor Gefeillio Aberteifi a'r Cylch a Trevelin, Patagonia (trwy law y Parchedig Eirian Lewis, Mynachlog-ddu) ..........£50
16. Mr. Ben Hughes, Childwall, Lerpwl.....................................£25
17. Mr. Eryl Wynne Jones, Woolton, Lerpwl .............................£25
18. Mrs Megan Vaughan Trefebin/Bebington.............................£20
19. Mrs Melody Drake-Lee, Alton Street, Ross-on-Wye ............£20
20. Nan ac Adrian Williams a Menai Lloyd Williams, Aberystwyth, Ceredigion ......................................................£25
21. Dr. Norman a Beti Jones, Llandegfan, Ynys Môn ................£50
22. Mrs Gwenda Davies a'r teulu, Bodiwan, Llanfairpwll, Ynys Môn ..............................................................................£30
23. Gareth a Gwenda Hughes, Oxton, Cilgwri ...........................£25
24. Dafydd Meirion, Taliesin, Wyddgrug, Sir y Fflint ................£40
25. Mr. R. Ifor Griffith, Allerton, Lerpwl ...................................£25
26. Peter a Menna Caton, Blundellsands, Lerpwl ......................£25
27. Cymdeithas Gymraeg Birmingham (trwy law Bethan Welsch, Ysgrifennydd) .........................................................£50

Braint yw mynegi fy niolch diffuant am yr ymateb hwn – 27 o gymdethasau a charedigion, yn wir am bawb a gyfrannodd i'r Cymdeithasau a fu mor frwdfrydig.
Anfoner cyfraniadau ar gyfer rhifyn nesaf o'r *Angor* (dyddiad cau bellach yw 26 Ebrill, 2015) er mwyn bod yn y Llawlyfr – anfoner yn enw **Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi / Merseyside Welsh Heritage Society** i 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW.

Ar ran y Pwyllgor Gwaith.

*Llawer o ddiolch*

***D. Ben Rees (Cadeirydd)***

***O.N. Pwyllgor Gwaith nesaf y Gymdeithas ar fore Sadwrn, 26 Ebrill am 10.30 yn 32 Garth Drive***




## COFIANT JIM GRIFFITHS

Yn bendant, drwy'r cofiant cyfan –
daliwyd
fesul dalen Rydaman
a'i gŵr glew mewn geirian glân
Diolch a ddywed Iwan!

*Iwan Rhys, Caernarfon*

4-3-2015

Annwyl D. Ben Rees,

Diolch o galon am y croeso ym Methel yn ddiweddar, ac yn arbennig am y gefnogaeth y mae Gwilym, Elin a Noa a'r teulu yn ei chael gennych chi ac aelodau'r capel. Maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth yn fawr iawn.

*Cofion o Gaernarfon*
*Iwan ac Angharad Rhys*



***Y teulu yn oedfa Gŵyl Ddewi***

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2015. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

**• RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Mehefin 2015 –** erbyn bore Gwener, 1 Mai 2015 –neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk Dyma rifyn cyntaf Cyfrol 37.

**ii) Rhifyn Gorffennaf 2015** – erbyn bore Llun, 1 Mehefin 2015 – y lluniau, adroddiadau etc. ar ôl Gŵyl y Mimosa.

**iii) Rhifyn Awst/Medi 2015 –** erbyn bore Mercher, 1 Gorffennaf 2015 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk




### DIOLCH

13-3-2015

Dear Ben,

Thank you very much for making me and the Lady Mayoress so welcome at your Civic Service on March 1st. It was a particularly warm welcome from everyone and I felt very much part of the service thanks to you all.

It was a special event for me in many ways and I felt very honoured to be there in my role as Lord Mayor.

Thank you as well for your very kind donation to the Lord Mayor's Charities. You raised £327 which is wonderful and I am extremely grateful.

Please pass on my thanks and appreciation to everyone who helped make the morning so successful.

Very best wishes, and once again particular personal thanks.

*Erica Kemp, Lord Mayor*
*Town Hall Liverpool L2 3SW*

---

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514